

## **Cynigion Gwella Adroddiadau Archwilwyr Allanol 2019-2022**

### **Allwedd i'r casgliadau –**

1. **Heb ei gychwyn** – yr adroddiad heb ei ystyried eto.
2. **Wrthi'n cael ei gynllunio** – cynnal trafodaethau er mwyn penderfynu sut i ymateb i'r argymhellion a chynllunio os/sut i'w gweithredu.
3. **Ar waith** – cytundeb neu gynllun gweithredu yn ei le er mwyn ymateb i'r argymhellion a gwaith wedi dechrau.
4. **Wedi ei gwblhau** – cynllun gweithredu i ymateb i'r argymhellion yn cael ei wireddu ond gellir dadlau na wnaiff y gwaith o gyflawni'r argymhellion byth orffen am ei fod yn waith parhaus / neu: mae'r argymhellion wedi eu gwireddu.

### **RHAN 1 – Adroddiadau lleol neu ranbarthol sy'n asesu gwaith Cyngor Gwynedd**

#### **1. Cyngor Gwynedd - System Gwybodaeth Adnoddau Dynol**

Adroddiad lleol i Wynedd gyhoeddwyd Tachwedd 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

### **Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –**

- (i) Sefydlu rhaglen gwireddu buddion ffurfiol er mwyn gallu gwerthuso nodau'r prosiect datblygu yn briodol.
1. Adolygu opsiynau technoleg o fewn y prosiect:
    - (i) Gwella mynediad i alluogi mwy o staff (er enghraifft y rhai sydd wedi'u lleoli'n anghysbell) i ymgysylltu â'r system.

### **Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion**

Mae'r Bwrdd Prosiect yn cadw golwg ar fuddion y prosiect er mwyn asesu os yw'r datrysiad yn cynnig gwerth am arian i'r Cyngor. Yn sgil hynny, bwriedir cyflwyno adroddiad yn y dyfodol agos fydd yn gwneud asesiad o'r cynnydd hyd yma ac yn amlinellu yr hyn sydd i'w gyflawni eto. Yn sgil galw cynyddol am amser staff datblygol y Gwasanaeth TG mewnol a hefyd cymhlethdod datblygu rhai modiwlau allweddol mae posibilrwydd cynyddol y bydd angen edrych yn allanol am rai agweddau o'r datrysiad.

### **Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella**

Oherwydd ardrawiad y pandemig, ni fu'n bosib cwblhau gwaith pellach o ran canfod lefelau sgiliau TG y gweithlu sydd wedi eu lleoli mewn mannau anghysbell. Mae'n

fwriad atgyfodi'r gwaith ond hyd yma nid oes amserlen pendant wedi ei lunio yn anffodus. Fel arwydd o ddefnydd ehangach fodd bynnag, mae dda nodi bod dros 90% o weithlu'r Cyngor bellach yn cael mynediad l'w slipliau cyflog trwy ddefnyddio'r porth hunanwasanaeth staff.

## Casgliad

Ar waith.

## **2. Y defnydd o ddata gan Lywodraeth Leol: Cyngor Gwynedd**

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Mae angen i'r Awdurdod ddatblygu dull mwy unedig a chorfforaethol o ddefnyddio data. Felly, mae newid mewn diwylliant ac arweinyddiaeth gryfach mewn perthynas â data yn hanfodol yng Ngwynedd, a bydd yn cefnogi'r gwaith o greu amgylchedd sy'n trin data fel adnodd allweddol. Bydd hyn yn helpu i ymestyn manteision gwneud penderfyniadau dan arweiniad data i bob maes gwasanaeth, yn ogystal â helpu i wella tryloywder a democratiaeth.

Bydd diweddarau'r protocolau rhannu data a darparu sesiynau hyfforddi diweddarau, sy'n canolbwyntio ar yr hyn y gall pobl ei wneud yn hytrach na'r hyn na allant ei wneud, yn helpu i sicrhau y bydd rheolwyr y gwasanaeth yn gwybod yr hyn y gallant ei rannu ac ar ba adegau y gallant wneud hynny, ac, felly, yn helpu i osgoi unrhyw achos o ochel rhag risgiau diangen ac anghymesur mewn perthynas â rhannu data.

Dylai'r Awdurdod adeiladu ar y gwaith a wneir gan ei uned ymchwil a dadansoddeg er mwyn adolygu ystod ac ansawdd yr wybodaeth sy'n ofynnol gan benderfynwyr, ynghyd â'r fformat ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth honno. Bydd hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu safonau o ran adrodd ar ddata er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir i'r uwch-swyddog a'r Aelodau Etholedig yn hygyrch, yn hawdd eu deall, ac yn cefnogi'r penderfynwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau mewn modd sydd mor effeithiol â phosibl.

### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cafodd yr adroddiad a'r argymhellion gwella eu trafod yn y Panel Gweithredol Llywodraethu Gwybodaeth, a'r mater wedi'i gynnwys yng Nghofrestr Risg y Cyngor (lefel Llywodraethu): "Methu uchafu potensial gwybodaeth wrth gefnogi busnes y Cyngor a methu bodloni gofynion statudol". Ymhellach ac fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Digidol y Cyngor, mae Is Grwp Data wedi ei sefydlu er mwyn mynd i'r afael a'r maes yma gyda cynrychiolaeth o pob adran yn cyfrannu at raglen waith uchelgeisiol i wella'r defnydd o data.

## Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cafodd Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-26 ei fabwysiadu gan y Cabinet fis Ionawr 2021. Mae hwn, a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, yn gosod allan cyfeiriad y Cyngor ym maes gwybodaeth dros y blynyddoedd nesaf gan gynnwys y materion a nodwyd yn yr adroddiad.

## Casgliad

Ar waith.

### **3. Adroddiad Arolygu: Gwasanaethau Gofal yn y Cartref Gwynedd**

Adroddiad lleol i Wynedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Ionawr 2019.

#### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Hyfforddiant staff (Rheoliad 16 (2)(a)). Gwelsom fod amllder hyfforddiant y staff yn anghyson ac nid oedd cofnodion hyfforddiant y staff wedi'u diweddarau. Cafodd y syniad o ddarparu lefel gyson a chyfartal o hyfforddiant i'r staff hefyd ei argymhell yn yr arolygiad diwethaf. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na datblygiad y staff. Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod o'r farn y gellid gwella'r ddarpariaeth hyfforddiant a chafodd hyn ei gydnabod gan y tîm rheoli.
2. Adroddiad ar ansawdd y gwasanaeth (Rheoliad 23 (1), (2) a (3)). Gwelsom nad oedd y gwasanaeth wedi cwblhau adroddiad blynyddol ar ansawdd y gwasanaeth ac nid oedd wedi ymgynghori'r â'r bobl a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth na'u cynrychiolwyr. Nid ydym wedi cyflwyno hysbysiad ar yr achlysur hwn gan na welsom fod hyn wedi cael effaith negyddol ar lesiant y bobl na'r gofal a'r cymorth a ddarperir.
3. Mae angen adolygu cynlluniau cyflenwi gwasanaeth ac asesiadau risg mewn modd amserol.
4. Mae angen i'r gwasanaeth wella'r ffordd y mae'n dogfennu ac yn cofnodi trafodaethau ffurfiol ac anffurfiol â theuluoedd/cynrychiolwyr a'r staff. Bydd hyn yn sicrhau y gellir dilyn llwybr archwilio clir.
5. Sicrhau bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio ffurfiol amserol a chyson ac arfarniad blynyddol, a chadw cofnod cyfredol o'r cyfarfodydd a gynhelir.

6. Mae angen diweddarau taflen wybodaeth y gwasanaeth ac mae angen iddi gynnwys manylion cyswllt cywir AGC.

#### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ystyriaeth lawn wedi ei roi i'r chwech argymhelliad a dderbyniwyd yn yr adroddiad. Mae'r argymhellion wedi eu trafod gan dîm rheoli'r Gwasanaeth, ac yn cael eu plethu i fewn i raglenni gwaith ehangach Trawsnewid Gwasanaeth Gofal Cartref mewnol y Cyngor, a rhaglen waith Prosiect Gofal Cartref sydd yn edrych ar ail gomisiynu ac ail fodelu ein ffordd o ddarparu gwasanaeth i unigolion. Er nad ydym y tro hwn wedi uchafu'r argymhellion i'r gofrestr risg, rydym o'r farn fod yr argymhellion a'r pwyntiau datblygol hyn yn hollbwysig i sicrhau ein bod yn darparu gofal o'r safon gorau posib, ac felly yn cynnal adolygiadau rheolaidd fel tîm rheoli'r Gwasanaeth i edrych ar gynnydd yn erbyn y gwaith.

#### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bwriad yr Adran oedd sicrhau gwelliannau ar draws y ddarpariaeth fewnol ac allanol yn rhan o raglen waith y Prosiect Gofal Cartref, ac mae'r Adran wedi ymateb i'r argymhellion drwy sefydlu datrysiadau tymor byr i wella'r gwasanaeth. Er fod y Prosiect Gofal Cartref yn symud yn ei flaen erbyn hyn, mae'n rhaid cydnabod y bu llithriad anorfod yn amserlen gwreiddiol y gwaith oherwydd yr angen i ymateb a chynnal gwasanaethau yn ystod y pandemig Covid-19.

Yn ogystal, yn ystod y ddwy flynedd diwethaf, mae newid wedi bod yn arweinyddiaeth y Gwasanaeth. Yn dilyn ymddeoliad un uwch reolwr, rydym wedi penodi unigolyn newydd i'r rôl, ac wedi penodi Pennaeth Cynorthwyol newydd o fewn yr adran, sydd â chyfrifoldeb dros y gwasanaethau Darparu.

Yn sgil hynny, fel Gwasanaeth, rydym wedi penderfynu canolbwyntio ar wella dwy flaenoriaeth gychwynnol, sef sicrhau cysondeb i amllder a chofnodion hyfforddiant staff, a llunio adroddiad rheolaidd ar ansawdd y gwasanaeth.

Mae gwaith wedi dechrau i adnabod pa staff sydd wedi derbyn pa hyfforddiant, a'n bwriad yw i ddatblygu dull electroneg o gofnodi'r wybodaeth yma yn fwy effeithiol. Mae ffrwd gwaith penodol yn y rhaglen waith Prosiect Gofal Cartref ehangach hefyd sydd yn canolbwyntio ar hyfforddiant staff darparwyr mewnol ac allanol, fydd yn sicrhau fod yr holl staff wedi cael cynnig ac wedi derbyn yr un hyfforddiant.

Yn sgil y Prosiect Gofal Cartref, rydym wedi bod yn ymgysylltu gyda staff i'w diweddarau o'r datblygiadau, ac yn cyfathrebu gyda defnyddwyr gwasanaeth. Mae'r cyfnod trosglwyddo yn rhan allweddol o'r Prosiect Gofal Cartref, a'n gobaith yw gallu ymgynghori gyda'r defnyddwyr a'u cynrychiolwyr yn ystod Gaeaf 2022 i gyfrannu tuag at ein hadroddiad ansawdd.

Rydym hefyd yn ymwybodol o'r pedwar pwynt datblygol sydd angen eu hystyried, a byddwn yn parhau i'w cynnwys ar raglen waith Trawsnewid y Gwasanaeth er mwyn gwireddu'r newidiadau hyn.

#### Casgliad:

Ar waith.

#### **4. Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol: Archwiliad o 'Sefydlu Gwasanaeth Ieuenctid Newydd i Gefnogi Pobl Ifanc' – Cyngor Gwynedd**

Adroddiad lleol i Wunedd gan Arolygiaeth Gofal Cymru gyhoeddwyd Medi 2019

#### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad

1. Er ei fod wedi ymateb i farn defnyddwyr gwasanaethau, mae dull y Cyngor yn adweithiol yn bennaf a chaiff ei lywio gan gyd-destun gweithredol sy'n newid – yn benodol, cyfyngiadau ariannol. Mae canfyddiad y Cyngor am fanteision sefydlu model gweithredu sy'n gallu mynd yn fwy neu'n llai mewn ymateb i anghenion yn ymwneud yn bennaf â'i helpu i ymateb yn rhwyddach i bwysau cyllidebol.
2. Roedd ffynonellau data a ddefnyddiwyd i oleuo'r model newydd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddeall anghenion defnyddwyr presennol y gwasanaeth ac ni wnaed rhyw lawer o ddefnydd o ddata i fodelu'r galw ar y gwasanaeth yn y dyfodol.
3. Mae gan y gwasanaeth symudol sydd wedi'i ailfodelu o'r newydd fwy o allu i fod yn bresennol dros dro yn ôl yr angen a lle y bo angen ac mae ganddo fwy o allu i fod yn fwy dynamig o ran ymateb i faterion cymdeithasol gan helpu i'w hatal rhag gwaethygu.
4. Bydd cynyddu defnydd effeithiol o ddata'n rhoi dealltwriaeth well i'r Cyngor am achosion sylfaenol materion a'r galw ar y gwasanaeth. Bydd hyn yn helpu'r Cyngor i feddwl yn ehangach a defnyddio dull mwy cyfannol o ran ymyrryd yn gynnar ac atal.
5. Ychydig o dystiolaeth sydd i adlewyrchu bod y Cyngor wedi ystyried sut y mae'r cam yn cyfrannu at ei amcanion llesiant ehangach, rhai ei bartneriaid, neu'r saith nod llesiant cenedlaethol. Ni ddefnyddiodd y Cyngor ddull integredig wrth ailfodelu ei wasanaeth ieuenctid. Er nad oedd amcanion llesiant y Cyngor a phartneriaid wedi'u cadarnhau pan ddechreuodd y broses ailfodelu, roedd ei ddull adweithiol ei natur, a ysgogwyd gan ystyriaethau ariannol, yn golygu na chafodd blaenoriaethau ehangach eu hystyried yn effeithiol.
6. Mae'r Cyngor yn rhoi pwyslais mawr ar gymhwyso'i ddull 'sy'n canolbwyntio ar y dinesydd', sef 'Ffordd Gwynedd', wrth roi'r cam ar waith. Fodd bynnag, yn y cam a adolygwyd, ni all y Cyngor ddangos bod 'Ffordd Gwynedd' yn ymgorffori'r

egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum ffordd o weithio yn llawn. Byddai gwneud hynny'n hwyluso mwy o integreiddio.

7. Er ei fod wedi creu rhagor o gyfleoedd ar gyfer cydweithio ar lefel weithredol, ni all y Cyngor ddangos ei fod wedi ystyried sut i weithio'n strategol gyda phartneriaid i gyflawni'r cam. Mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
8. Dywedodd un partner fod newid negyddol wedi bod o ran ymgysylltu â gwasanaeth ieuencid y Cyngor ar ôl iddo gael ei ailfodelu o'r newydd, gan bod hynny wedi effeithio'n anffafriol ar amcanion a gweithgareddau ataliol y partner. Eto mae hyn yn adlewyrchu ein canfyddiadau mewn perthynas ag integreiddio.
9. Mae diffyg neges glir sy'n datgan y bwriad i gau'r holl glybiau ieuencid presennol yn y fideo 'Gwasanaeth Ieuencid Gwynedd ar gyfer Yfory' yn wendid allweddol o ran sut y gwnaeth y Cyngor gyfleu newidiadau posibl i ddefnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion.

### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Yn yr adroddiadau blaenorol sydd wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Tachwedd 2019 a Hydref 2021 nodwyd bod y Cyngor wedi nodi dymuniad i geisio trafodaeth bellach gyda Swyddfa Archwilio Cymru ar gasgliadau a chynigion gwella archwiliad y Gwasanaeth Ieuencid. Gweler cofnod y Cyngor Llawn dyddiedig 3ydd Hydref 2019.

Cyflwynwyd Adroddiad Cynnydd ar ail-fodelu'r Gwasanaeth Ieuencid i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 23 Ionawr 2020. Nid oedd yr adroddiad hwnnw yn cyfeirio at yr argymhellion gwella gan fod y drafodaeth gyda'r Swyddfa Archwilio yn parhau.

### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Cytunodd Archwilio Cymru i gynnal adolygiad dilynol o weithredu'r model gwasanaeth ieuencid newydd, fel ymateb i bryderon y Cyngor llawn fod eu adroddiad gwreiddiol heb gymryd ystyriaeth o ansawdd y model ieuencid newydd.

Bwriadwyd cwblhau'r adolygiad yn ystod 2020-21 ond oherwydd argyfwng Covid-19 mae'r gwaith wedi ei ohirio. Cytunwyd ar friff i'r adolygiad ym mis Ionawr 2021 ond mae amserlen i'w gwblhau eto i'w gadarnhau. Mae'r adolygiad yn bwriadu edrych ar ansawdd y ddarpariaeth o dan drefniadau'r model newydd. Nid yw'r Gwasanaeth Ieuencid wedi gweithredu'r model newydd ers cychwyn yr argyfwng oherwydd yr angen iddynt addasu i ymateb i anghenion pobl ifanc, ac oherwydd bod cyfyngiadau y pandemig yn eu hatal rhag darparu rhai elfennau o'r gwasanaeth yn gyfan gwbl.

Mae gwaith adfer eisoes ar droed ond nid ydym yn rhagweld y bydd y Gwasanaeth Ieuenctid yn adfer i'r model newydd yn llawn am beth amser eto.

## Casgliad

Wrthi'n cael ei gynllunio.

### **5. Comisiynu Lleoliadau mewn Cartrefi Gofal i Bobl Hŷn – Cynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**

Adroddiad rhanbarthol sy'n canolbwyntio ar waith awdurdodau'r gogledd yn y maes comisiynu cartrefi gofal gyhoeddwyd 16 Rhagfyr 2021 - Comisiynu Cartrefi Gofal ar gyfer Pobl Hŷn | Audit Wales (archwilio.cymru)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi canfyddiadau adolygiad yr Archwilydd Cyffredinol o drefniadau ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal ledled Gogledd Cymru. Fe wnaed y gwaith fel rhan o'n rhaglen statudol o waith archwilio lleol ym mhob un o'r awdurdodau lleol yng Ngogledd Cymru ac ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad (neu argymhellion fel ddefnyddir yn yr adroddiad)

1. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr sicrhau defnydd cyson o gytundebau cyn lleoli ledled y rhanbarth.
2. Gall y dull presennol o gomisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal achosi tensiynau rhwng partneriaid ac arwain at werth gwael a phrofiad gwael i'r defnyddiwr gwasanaeth. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gydweithio i adolygu trefniadau lleol ar gyfer comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal i ddileu effeithiau andwyol y gellir eu hosgoi ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ac ar ei gilydd.
3. Mae atebolrwydd yn un o gonglfeini prosesau penderfynu yn y sector cyhoeddus. Mae angen i drefniadau llywodraethu graffu ar benderfyniadau a dwyn penderfynwyr i gyfrif. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gryfhau eu trefniadau llywodraethu wrth weithio mewn partneriaeth i sicrhau atebolrwydd priodol a chraffu effeithiol.
4. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fynd ati, trwy'r Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol, i ddatblygu strategaeth comisiynu lleoliadau mewn cartrefi gofal y cytunwyd arni yn rhanbarthol, ac wedyn, datblygu cynllun cyflawni cysylltiedig.

5. Mae angen i gynghorau Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr adolygu eu trefniadau comisiynu ar gyfer lleoliadau mewn cartrefi gofal i sicrhau eu bod yn cyflawni eu cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â'r Gymraeg, a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cyflwynir adroddiad i'r Cabinet ar 28/06/22 yn dilyn adolygiad o fforddiadwyedd ffioedd preswyl a nyrsio 2022/23. Mae mater cynaliadwyedd y farchnad gofal wedi ei gynnwys ar y gofrestr risg adrannol.

#### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn rhan o drafodaethau rhanbarthol ar gomisiynu lleoliadau preswyl a nyrsio, a disgwylir derbyn y gytundeb cyn lleoli ranbarthol fis Medi 2022. Fodd bynnag, oherwydd yr angen i sicrhau cynaladwyedd a sefydlogrwydd y farchnad gofal yng Ngwynedd, byddwn yn camu i ffwrdd o ffioedd safonol Gogledd Cymru.

Rydym yn cydweithio gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn cryfhau ein trefniadau llywodraethu achosion sy'n cael eu comisiynu ar y cyd. Mae hefyd trafodaethau cychwynnol wedi digwydd ymysg swyddogion y Cyngor ar faterion iaith a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

#### Casgliad

Wrthi'n cael ei gynllunio

#### **6. Cyngor Gwynedd – Adolygiad o Reoli Perfformiad**

Adroddiad lleol i Wynedd gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd yn Chwefror 2022  
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

#### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

A1 - Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod ganddo ystod o fesurau defnyddiol ar gyfer yr holl adrannau a swyddogaethau. Mae angen iddo roi sylw arbennig i'r canlynol:

- sicrhau bod yr holl wasanaethau, yn nodi mesurau perfformiad priodol wedi'u saernïo'n dda (SMART) sy'n adlewyrchu pwrpas y gwasanaeth;
- gwneud pwrpas y gwasanaeth a nodwyd mewn cyfarfodydd herio perfformiad yn gydnaws â'r pwrpas yn y cynlluniau gwasanaeth adrannol yng Nghynllun y Cyngor;
- ymgorffori gwybodaeth uchelgais/safon gwasanaeth/darged a thueddiadau i roi darlun clir i'r Cyngor o uchelgais y Cyngor a'i gynnydd tuag at ei gyflawni; a



- sicrhau bod trefniadau rheoli perfformiad yn ddigon ystwyth i ymateb i heriau newydd a wynebir gan wasanaethau, fel y problemau gweithlu sylweddol presennol a wynebir gan rai gwasanaethau, drwy weithredu mesurau penodol.

A2 - Mae angen i'r Cyngor wella ei adroddiadau perfformiad er mwyn cynorthwyo eglurdeb drwy:

- ehangu'r defnydd o offer gweledol fel codau lliw i alluogi'r darlennydd i ganolbwyntio'n gyflym ar y materion allweddol drwy dynnu sylw at feysydd lle mae perfformiad ar y trywydd iawn neu'n peri pryder;

- sicrhau bod adroddiadau'n gytbwys ac yn rhoi darlun cyflawn, gonest a chytbwys o'r modd y mae'r Cyngor yn perfformio sy'n amlygu lle mae angen gwella er mwyn sicrhau canlyniadau diriaethol;

- sicrhau bod dangosfwrdd (neu atodiad mesurau) cyfredol yn cael ei gynhyrchu gan bob gwasanaeth a'i gyflwyno ym mhob cyfarfod rheoli perfformiad;

- cyhoeddi adroddiad perfformiad/cerdyn sgorio corfforaethol sy'n adrodd ar bob mesur allweddol mewn un ddogfen hygyrch.

A3 - Mae angen i'r Cyngor wella'r broses o integreiddio wybodaeth perfformiad ac ariannol drwy:

- ddefnyddio'r galw gwirioneddol am wasanaethau yn hytrach na demograffeg fel y sylfaen ar gyfer gosod cyllidebau sydd yn ymateb i alw;

- cyfleu patrwm y galw gwirioneddol o'i gymharu â thybiaethau cynllunio a ddefnyddir i osod y gyllideb sy'n galluogi gwell dealltwriaeth o'r pwysau adnoddau presennol ar wasanaethau;

- cyfuno gwybodaeth am berfformiad â gwybodaeth ariannol i gyflwyno darlun cyfannol ac unedig o sefyllfa adnoddau gwasanaethau;

- cyfuno gwybodaeth perfformiad ac ariannol i rhoi sicrwydd y gellir gwireddu cynlluniau arbedion a gyflwynir dros y tymor canolig;

- sicrhau ei hun bod cyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar lefel sy'n ddigonol i roi adnoddau i'r galw presennol a wynebir gan wasanaethau; a

- phan fydd y Cyngor yn sicr bod y cyllidebau ar gyfer gwasanaethau allweddol sy'n cael eu harwain gan alw yn cael eu gosod ar y lefel gywir, datblygu offer fel cyllid dros dro i gydnabod ac ymdopi â chynnydd yn y galw mewn cyllidebau cyfnewidiol.

A4 - Dylai'r Cyngor gryfhau ei drefniadau rheoli perfformiad drwy wneud y canlynol:

- cyfathrebu'n rheolaidd y newidiadau yn y fframwaith rheoli perfformiad gyda swyddogion ac aelodau'r Cyngor ;

- sicrhau bod swyddogion ac aelodau'r Cyngor yn cael cymorth a hyfforddiant priodol fel y gallent gyflawni eu priod swyddogaethau'n effeithiol;
- adolygu'r trefniadau cefnogi ar gyfer y fframwaith rheoli perfformiad;
- sicrhau bod yr holl adrannau'n ymgorffori'n effeithiol y defnydd o'r gofrestr risg yn y cylch rheoli perfformiad;
- ymgorffori dull "Un Gwynedd" a fydd yn agor sianeli deialog i alluogi dysgu corfforaethol a dileu yn gyflym achosion lle mae galw yn sgil methiant mewn un adran yn cynyddu'r galw am wasanaethau mewn un arall;
- ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a rhanddeiliaid i ddeall gwir achos perfformiad gwael ac ymddygiad anfwriadol; a
- chyflwyno cerrig milltir a nodi perchnogion prosiectau i dracio cynnydd a sicrhau atebolrwydd am gyflawni prosiectau sy'n ymestyn dros sawl blwyddyn.

A5 - Mae angen i'r Cyngor ymgorffori ystyriaeth o egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nhrefniadau cynllunio adrannau, rheoli ac adolygu perfformiad ar draws holl wasanaethau'r Cyngor.

#### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion –

Adroddiad a'r argymhellion wedi eu hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau herio perfformiad corfforaethol a gafodd ei arwain gan y Prif Weithredwr ar ddiwedd 2021/22. Cyflwynwyd yr argymhellion terfynol ar gyfer y drefn herio perfformiad newydd (sy'n ymgorffori mwyafrif yr argymhellion yn yr astudiaeth hon) yn ystod mis Chwefror 2022.

#### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Bydd y drefn newydd yn cael ei gweithredu yn dilyn yr etholiad ym mis Mai 2022 ar gyfer y cylch cyntaf o gyfarfodydd herio perfformiad yn 2022/23. Bydd canllawiau ar y drefn newydd yn cael eu paratoi ar gyfer yr Adrannau, Aelodau Cabinet a'r Aelodau Craffu. Yn ogystal bydd cyfres o sesiynau i godi ymwybyddiaeth o'r trefniadau newydd ynghyd a darparu cyfle i ofyn cwestiynau a chyflwyno sylwadau yn cael eu cynnal i gynrychiolwyr Adrannau ac i Aelodau Cabinet yn ystod mis Mai/Mehfin.

#### Casgliad

Ar waith

## **RHAN 2 – adroddiadau cenedlaethol neu gyffredinol sy'n berthnasol i Lywodraeth Leol**

### **1. Sut mae Llywodraeth Leol yn Rheoli Galw - Digartrefedd**

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Ionawr 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

#### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
  - sicrhau bod eu staff yn ddigon medrus i ddelio â gofynion newydd cyfryngu, datrys problemau, negodi a dylanwadu gyda phobl ddigartref; ac
  - adolygu ac ad-drefnu eu gwasanaethau i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl ddigartref a rhai a allai fod yn ddigartref er mwyn atal digartrefedd.
2. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol wneud y canlynol:
  - llunio gwasanaethau er mwyn sicrhau bod cyswllt cynnar â defnyddwyr gwasanaethau;
  - defnyddio dulliau 'brysbennu' i nodi a hidlo unigolion sy'n gofyn am help er mwyn pennu'r ymateb mwyaf priodol i fynd i'r afael â'u hanghenion; a
  - profi effeithiolrwydd gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.
3. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cyhoeddi safonau gwasanaethau sy'n nodi'n glir beth yw eu cyfrifoldebau a sut y byddant yn darparu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gwybod beth mae ganddynt hawl i'w gael a beth mae'n rhaid iddynt ei wneud drostynt hwy eu hunain. Dylai safonau gwasanaethau:
  - gael eu hysgrifennu mewn iaith hygyrch a syml.
  - bod yn fanwl gywir ynghylch beth y gall ymgeiswyr ei ddisgwyl a beth na allant ei ddisgwyl, a phryd y gallant ddisgwyl iddo gael ei ddatrys.
  - nodi'n glir rôl yr ymgeisydd yn y broses a sut y gallant helpu'r broses i redeg yn fwy llyfn a chyflym.
  - cael eu llunio ar y cyd ag arbenigwyr pwnc a chynnwys pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth(au).
  - integreiddio'n effeithiol â'r broses asesu unigol.
  - cynnig dewisiadau amgen hyfyw i wasanaethau'r awdurdod.
  - nodi'r prosesau apeliadau a chwynion. Dylai'r rhain fod yn seiliedig ar degwch a chydraddoldeb i bawb dan sylw a dylent fod ar gael i bawb.
4. Er mwyn gwella perfformiad cyfredol rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud defnydd gwell o'u gwefannau er mwyn helpu i reoli'r galw drwy:

- brofi defnyddioldeb ac effeithiolrwydd y wybodaeth gyfredol ar wefannau gan ddefnyddio ein llinellau ymholi a nodir yn Atodiad 5;
  - cynyddu a gwella ystod, ansawdd a chwmpas gwybodaeth ar y we; gwneud gwell defnydd o raglenni ar-lein; a
  - chysylltu'n fwy effeithiol â gwybodaeth gan ddarparwyr arbenigol ac arbenigwyr cyngor, fel Cyngor ar Bopeth.
5. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn nodi ac yn cytuno ar yr hyn y maent yn ei ddisgwyl gan bartneriaid, gan nodi sut y byddant yn cydweithio er mwyn lleddfu digartrefedd. Dylai'r cytundeb hwn gael ei adolygu'n rheolaidd a dylai perfformiad partneriaid gael ei adolygu er mwyn nodi meysydd i'w gwella.
  6. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn mynd i'r afael â gwendidau yn eu dull monitro cydraddolebau, ac yn sicrhau bod eu gwasanaeth digartrefedd yn cofnodi ac yn gwerthuso data priodol yn gywir er mwyn dangos mynediad cyfartal i ddefnyddwyr gwasanaethau y mae gan yr awdurdod lleol ddyletsywydd tuag atynt.

### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae ein trefniadau gwaith mewn perthnasedd â digartrefedd wedi bod yn destun nifer o gyfarfodydd mewnol a chyhoeddus yn ddiweddar gan gynnwys y Pwyllgor Craffu Gofal ym mis Mawrth 2021 a'r Cabinet ar 20 Ebrill 2021. Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill 2021.

Mae'r nifer o gyflwyniadau digartrefedd wedi cynyddu yn sylweddol yn ystod y pandemig a bydd yr ailstrwythuro yn ein galluogi i ymateb ac yn cynyddu ein capasiti i roi cefnogaeth ac ymyrraeth gynnar i'r sawl sy'n cyflwyno'n ddigartref.

### Cynydd yn erbyn y cynigion gwella

Ym mis Gorffennaf 2019 bu i'r Cabinet gymeradwyo ein Strategaeth Tai. Ymhellach i hyn, cymeradwywyd ein Cynllun Gweithredu Tai gan y Cabinet yn eu cyfarfod ar y 15 Rhagfyr 2020 sy'n nodi sut y byddwn yn mynd ati i gyflawni'r amcan bod neb yn ddigartref yng Ngwynedd. Mae cydweithio gyda phartneriaid yn ran allweddol o wireddu'r amcan yma.

Rydym wedi cynllunio ar y cyd ag arbenigwr i sicrhau bod ein safonau gwasanaeth a'r wybodaeth yr ydym yn ei roi allan gan gynnwys ein cyfrifoldebau yn ddealladwy.

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu 'Siop un Stop' ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

## Casgliad

Wedi ei gwblhau.

## **2. Addasiadau Tai**

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Chwefror 2018  
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Argymhellwn y dylai awdurdodau lleol weithio gydag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i atgyfnerthu eu ffocws strategol wrth ddarparu addasiadau drwy:
  - osod amcanion strategol priodol ar gyfer addasiadau sy'n canolbwyntio ar lesiant ac annibyniaeth;
  - gwella ansawdd yr wybodaeth am y galw am addasiadau drwy ddefnyddio ystod eang o ddata i asesu angen, gan gynnwys ceisio a defnyddio gwybodaeth gan bartneriaid sy'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol; a
  - chysylltu'r system ar gyfer rheoli a chyflenwi addasiadau â pholisïau a chofrestrau tai addasedig er mwyn gwneud y defnydd gorau o gartrefi a addaswyd eisoes.
2. Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi ddarparu gwybodaeth am addasiadau tai yn Gymraeg ac yn Saesneg, mewn ffurfweddau hygyrch gan gynnwys Braille, ffontiau mawr, fersiynau sain ac ieithoedd eraill. Dylid hyrwyddo gwybodaeth yn eang drwy ystod o gyfryngau, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, gwefannau a gwybodaeth gyhoeddedig, a hefyd drwy bartneriaid allweddol. Yn ddefnyddol, dylid cynhyrchu gwybodaeth ar y cyd ac alinio polisïau rhwng cyrff cyflenwi er mwyn ehangu eu cwmpas a chynyddu'r defnydd ohonynt.
3. Gan fod nifer helaeth o lwybrau er mwyn cyrchu gwasanaethau, mae angen i sefydliadau cyflenwi sicrhau bod ganddynt systemau cadarn i ymdrin â cheisiadau yn gyflym ac effeithiol. Fodd bynnag, gwelsom fod y prosesau a ddefnyddir gan sefydliadau cyflenwi yn amrywio'n helaeth, a'u bod yn aml yn creu anawsterau i bobl anabl a phobl hŷn sydd yn ceisio cymorth (paragraffau 2.16 i 2.19). Argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi symleiddio'r broses ymgeisio drwy greu un ffurflen gais gynhwysfawr ar gyfer pob sefydliad o fewn ardal awdurdod lleol. Dylai'r ffurflen fod ar gael drwy bartneriaid ac ar-lein.
4. Gall amrywiaeth o ffactorau achosi oedi wrth addasu (paragraffau 2.20 i 2.33). Er mwyn gwella prydlondeb wrth gyflenwi, argymhellwn y canlynol:

- bod awdurdodau lleol yn darparu neu'n defnyddio gwasanaethau asiantaeth gwella cartrefi i gynorthwyo pobl anabl a phobl hŷn i fynd ar drywydd eu ceisiadau DFG yn effeithlon;
- bod sefydliadau cyflenwi yn gweithio gydag awdurdodau cynllunio i gyflymu a symleiddio'r broses ar gyfer addasiadau y mae angen cymeradwyaeth ar eu cyfer;
- bod sefydliadau cyflenwi yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

#### 5. Argymhellwn fod sefydliadau cyflenwi:

- yn cyflwyno systemau ffurfiol er mwyn achredu contractwyr i gyflawni gwaith addasu. Dylai'r rhain gynnwys:
  - safonau gofal cwsmeriaid fel cadw apwyntiadau, cadw'r safle'n daclus, rheoli sŵn ac ati;
  - archwilio sefyllfa ariannol, statws treth a TAW;
  - hyrwyddo arferion iechyd a diogelwch da;
  - gofyniad i ddefnyddio cynlluniau gwarant;
  - sicrhau y delir yswiriant digonol; a
  - gofyn am eirdaon.
- defnyddio cytundebau fframwaith a chontractau drwy bartneriaeth i gyflenwi addasiadau;
- mynd i'r afael â gwendidau wrth roi addasiadau ar gontract, diweddarau'r Rhestr Cyfraddau a ddefnyddir i roi gwaith allan ar dendr a chynnal ymarferion tendro cystadleuol er mwyn cefnogi gwerth am arian wrth roi gwaith allan ar gontract;
- datblygu systemau effeithiol i reoli a gwerthuso perfformiad contractau drwy:
  - bennu ystod briodol o wybodaeth er mwyn barnu ynghylch perfformiad a chyflawniad y gwaith, gan gynnwys prydlondeb y gwaith; ansawdd y gwaith; adborth ymgeiswyr/tenantiaid; cost y gwaith (gan gynnwys amrywiadau); record o ran iechyd a diogelwch; ac adborth cwsmeriaid;
  - gwerthuso ac adrodd ar berfformiad yn rheolaidd er mwyn canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau; a
  - rhoi adborth ffurfiol i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, lefel unrhyw amrywio a pha mor dderbyniol yw hynny, gwaith sy'n gywir y tro cyntaf, asesiad ôl-arolygol a chwblhau ar amser ac yn unol â'r gyllideb.

#### 6. Argymhellwn y dylai awdurdod lleol gydweithio ag asiantaethau partner (cyrff iechyd, cymdeithasau tai a Gofal a Thrwsio) i ddatblygu a gwella'r trefniadau ar gyfer cydweithio. Y nod fydd cynyddu hyd yr eithaf y defnydd a'r budd yn gysylltiedig ag addasiadau o ran cefnogi annibyniaeth drwy gyfuno adnoddau, cydleoli staff a chreu timau cyflenwi integredig.

7. Er mwyn gwella'r defnydd a'r nifer sy'n manteisio ar addasiadau gyda chyrrff iechyd, argymhellwn y dylai sefydliadau cyflenwi gytuno ar y cyd ar gyd-safonau gwasanaeth ar gyfer cyflenwi addasiadau ym mhob ardal awdurdod lleol, a chyhoeddi'r cyd-safonau hynny. Dylid nodi'n glir yn y safonau gwasanaeth sut y bydd pob asiantaeth yn mynd ati i gyflenwi addasiadau, ac yn darparu gwasanaethau i sicrhau bod pobl yn gwybod yr hyn y mae ganddynt hawl i'w dderbyn. Dylai Safonau Gwasanaeth:
- fod mewn iaith hygyrch sy'n hawdd ei deall;
  - bod yn fanwl gywir ynghylch yr hyn y gall pobl/na all pobl ddisgwyl ei dderbyn;
  - cael eu llunio ar y cyd i gynnwys yr holl wasanaethau addasu o fewn ardal;
  - nodi cymhwysedd ar gyfer y gwahanol ffrydiau ariannu, y prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu; a
  - chynnig yr opsiynau posib a'r dewisiadau eraill yn lle addasu, gan gynnwys cysylltu â chofrestrau tai addasedig i wneud y defnydd gorau posib o gartrefi sydd eisoes wedi'u haddasu.

#### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Cyflwynwyd y Cynllun Gweithredu Tai i Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Rhagfyr 2020 syn cynnwys ein ymrwymiad i addasiadau tai dros y blynyddoedd nesaf. Bu iddo gael ei drafod mewn manylder yn y Pwyllgor Craffu ym mis Ionawr 2020 yn ogystal.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd chwarterol gyda phartneriaid (adrannau'r Cyngor, Bwrdd Iechyd, Gofal a Thrwsio) sy'n cwmpasu'r argymhellion hyn.

#### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Ym mis Rhagfyr 2020, cymeradwywyd y Cynllun Gweithredu Tai gan Gabinet Cyngor Gwynedd gyda £7.2m wedi ei glustnodi dros 6 mlynedd ar gyfer DFG a £600k ar gyfer addasiadau llai (Enable).

Mae'r argymelliadau wedi eu hystyried wrth lunio ein trefniadau gwaith. Rydym yn cydweithio gyda phartneriaid megis Gofal a Thrwsio, adrannau eraill y Cyngor, â'r Bwrdd Iechyd, gyda cyfeiriadau yn cael eu cyfeirio drwy Therapyddion Galwedigaethol yr Awdurdod. Mae sefydliadau cyflenwi erbyn hyn yn defnyddio Aseswyr yr Ymddiriedir Ynddynt i gynnal asesiadau ar gyfer gwaith addasu o natur symlach.

Mae gennym systemau priodol mewn lle i weinyddu'r addasiadau tai. Mae ein contractwyr wedi eu gwirio drwy broses cadarn ac rydym ar hyn o bryd yn y broses o sefydlu fframwaith newydd o gontractwyr cymwys ac achrededig i weithredu'r addasiadau. Rydym yn penodi asiantaethau i hwyluso'r broses ar gyfer ymgeiswyr mewn achos o addasiadau sylweddol, yn ogystal ac ymgymryd â rhain yn fewnol pan fo môdd. Rydym wedi sefydlu system Rhaglen Waith safonol, gyda phrisiau

cystadleuol ynghlwm er mwyn hwyluso'r broses dendro am waith adeiladol. Rydym hefyd wedi mabwysiadu system e-dendro, sydd yn cynnwys system gadarn a ddiogel o rhannu dogfennau tendr yn ogystal a derbyn prisiau yn ôl gan Contractwyr, yn unol ag arfer cyfredol NJCC, er mwyn sicrhau amserlen amgen.

Rydym wastad yn rhoi adborth i gontractwyr am eu perfformiad, gan drafod materion allweddol fel bodlonrwydd cleientiaid, ac yn falch iawn ein bod yn gallu cynnal perthynas da iawn gyda'r Contractwyr sydd yn ymgymryd gwaith ar ein cyfer, gyda llawer o gleientau yn ysgrifennu atom i ddatgan eu bodlonrwydd gyda'r broses o dderbyn addasiadau.

Un o brosiectau'r Cynllun Gweithredu Tai, sydd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd, yw i sefydlu 'Siop un Stop' ar gyfer materion tai ac yn sgil hynny bydd mynediad at y gwasanaeth yma drwy ein gwefan a threfniadau ymgysylltu yn esblygu ymhellach dros y misoedd nesaf.

Rydym wedi diwygio ein Polisi Tai Sector Breifat i adlewyrchu'r galw gan Lywodraeth Cymru i ddileu unrhyw ofyniad am brawf modd ar gyfer addasiadau bychain a chanolig, ac yn gobeithio gweithredu ar hyn cyn gynted mae'r ddogfen diwygiedig wedi derbyn cymeradwyaeth ffurfiol.

#### Casgliad

Wedi ei gwblhau.

### **3. Darparu Gwasanaeth Llywodraeth Lleol i Gymunedau Gwledig: Trosglwyddo Asedau Cymunedol**

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Rhagfyr 2018

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

#### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

1. Mae angen i awdurdodau lleol wneud mwy i sicrhau bod y broses o Drosglwyddo Asedau Cymunedol yn symlach ac yn fwy deniadol, helpu i feithrin gallu Cyngorau Cymuned a Thref, rhoi rhagor o arweiniad iddynt o ran sicrhau cyllid, a gofalu eu bod yn cefnogi modelau datblygu cymunedol eraill, er enghraifft mentrau cymdeithasol sy'n cefnogi gwerth cymdeithasol a chyfranogiad dinasyddion. At hynny, rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn monitro ac yn cyhoeddi nifer yr achosion o Drosglwyddo Asedau Cymunedol ac yn mesur effaith gymdeithasol trosglwyddiadau o'r fath.
2. Mae gan awdurdodau lleol gyfle sylweddol i ddarparu gwell help a chymorth, a hynny mewn modd mwy amlwg, cyn, yn ystod, ac ar ôl y broses o drosglwyddo asedau cymunedol. Down i'r casgliad bod yna gryn le i wella'r



gwaith cynllunio busnes a pharatoi ar gyfer trosglwyddo asedau cymunedol, yn ogystal â'r ôl-ofal. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn gwneud y canlynol:

- nodi rôl trosglwyddo asedau cymunedol wrth sefydlu canolfannau cymunedol, rhwydweithiau arbenigedd a chlystyrau o wasanaethau cynghori ac atal;
- gweithio gyda chynghorau tref a chymuned i feithrin eu gallu i ymgymryd â rhagor o gynlluniau Trosglwyddo Asedau Cymunedol;
- nodi'r asedau sy'n addas i gael eu trosglwyddo, ac egluro'r hyn y mae angen i'r awdurdod ei wneud i'w galluogi i gael eu trosglwyddo;
- sicrhau bod eu polisiau o ran Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cwmpasu'r canlynol yn ddigonol: ôl-ofal, cefnogaeth hirdymor, cymorth ôl-drosglwyddo, cyfeirio at fynediad at gyllid, a rhannu'r dysgu ynghylch yr hyn sy'n gweithio'n dda; a
- cefnogi arweinyddiaeth yn y gymuned trwy ddatblygu rhwydweithiau o ddiddordeb a hyfforddiant, ac annog unigolion i wirfoddoli.

### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd yn gweithio ar greu Cynllun Adfywio newydd ar gyfer y sir. Mae'r sir wedi ei rhannu i 13 ardal a bydd cynllun ardal leol yn cael ei baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal. Fel rhan gychwynnol y cynllun rydym wedi ymgynghori gyda grwpiau cymunedol gweithredol a chynghorau cymuned a thref er mwyn canfod barn ar y themâu sy'n bwysig i gymunedau a sut gellir adeiladu ar fodel o gydweithio er mwyn gweithredu ar y blaenoriaethau hynny. Mae hyn yn blethiant o nifer o wahanol ymgynghoriadau trawsadrannol sydd yn digwydd. Rydym hefyd yn ystod 2022 wedi agor yn ymgynghoriad allan i'r cyhoedd yn ehangach, gyda'r ymgynghoriad yn cau diwedd Mehefin 2022, gyda'r bwriad o gynnal gweithdai ymhob un o'r 13 ardal yn y misoedd nesaf i ddatblygu'r cynlluniau ardal leol. Bydd hyn yn ffordd i ni allu ymateb yn drawsadrannol i'r heriau sy'n wynebu cymunedau a chydgyllunio gyda'r cymunedau er mwyn sicrhau ein bod yn rhoi'r adnoddau a chefnogaeth tu ôl i'r gweithgareddau/pethau sy'n bwysig i'r cymunedau lleol hynny.

### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

-Mae yna nifer fawr o gynlluniau i gefnogi cymunedau gwledig ar waith, ac mae rhai o'r rhain yn ymwneud â darparu adnoddau sy'n addas i bwrpas. Nid yw hynny bob tro yn golygu trosglwyddo asedau sy'n eiddo i'r Cyngor, ond fe ddaw'r anghenion yn fwy amlwg wrth gwblhau'r gwaith ar lunio Cynlluniau Adfywio.

-Roedd Cyngor Gwynedd yn arwain cryn dipyn yn y maes Mentrau Cymdeithasol yn 2013. Gyda swydd Rheolwr Mentrau Cymdeithasol. Mi gafodd Gwynedd y dynodiad cyntaf o fod yn Sir Fentrau Cymdeithasol yn Nghymru gan Social Enterprise UK a mi roedd Fforwm i'r Mentrau. Ers hynny mae newidiadau o fewn adrannau a newidiadau

o fewn Mentrau Cymdeithasol wedi gweld y Fforwm yn dod i ben a neb yn arwain ar y agenda yn uniongyrchol.

-Mae'r Adran Economi a Chymuned wedi gweithio yn agos iawn gyda Arloesi Gwynedd Wledig i greu hybiau cymunedol. Rydym rŵan yn datblygu gofod gwneud a caffis trwsio mewn 8 cymuned yn y Sir. Mae pob un am fod ychydig yn wahanol; ond prif nod fydd cynnig cyfleusterau 'hot desking' gofod creu a gwneud; caffis trwsio; plethu i fewn gyda gweithgareddau cymunedol eraill.

-Yn hanesyddol mae'r Adran wedi neud llawer iawn o waith o rhan trosglwyddo asedau i Cymunedau/Grwpiau Cymunedol – e.e Canolfan Awyr Agored Rhyd Ddu cael ei drosglwyddo i Antur Nantlle i rhedeg fel busnes 'bunk house'; hen Llyfrgell yn Deiniolen wedi cael ei drosglwyddo i Menter Fachwen. Mi gafodd Gweithdrefn Trosglwyddo Asedau ei greu ond ddim ei fabwysiadu. Gyda newidiadau mewn cyllidebau a blaenoriaethau does neb yn arwain ar hyn.

### Casgliad

Ar waith.

#### **4. Cysgu Allan yng Nghymru – Problem i Bawb; Cyfrifoldeb i Neb**

Adroddiad Cenedlaethol gan Archwilio Cymru a gyhoeddwyd Gorffennaf 2020

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

#### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

Dylai cyrff cyhoeddus a phartneriaid yn y trydydd sector sicrhau eu bod yn defnyddio data i gynllunio'r gwasanaethau cywir ar gyfer y dyfodol, ac i sefydlu protocolau rhannu data effeithiol i sicrhau eu bod yn ymateb yn effeithiol ac yn ddiogel i'r broblem o bobl yn cysgu allan. Rydym yn argymhell bod cynghorau a'u partneriaid:

- yn buddsoddi mewn sgiliau dadansoddi data i ddeall yn well beth yw'r sefyllfa gyfredol a rhagweld y galw yn y dyfodol i atal digartrefedd yn y dyfodol;
- adolygu a diweddarau protocolau rhannu data i sicrhau eu bod yn cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni eu cyfrifoldebau rhannu data'n effeithiol; a
- chyflwyno un broses casglu data ac asesu data i roi cymorth i ategu prosesau penderfynu diogel wrth ymdrin â phobl sy'n cysgu allan.

Gan bod cyrff cyhoeddus yn ymateb i bobl mewn argyfwng, maent yn aml yn ymdrin â materion aciwt ar wahân i'w gilydd ac anaml y maent yn mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr argyfwng. Er mwyn gwneud hyn mae gofyn i gyrff cyhoeddus ddylunio a chreu modelau darparu gwasanaethau sy'n ymatebol. Rydym yn argymhell bod cyrff cyhoeddus yn defnyddio ein hofferyn hunan-fyfyrion anghenion cymhleth i wella sut y gallant fynd i'r afael ag anghenion cymhleth ar y cyd yn y dyfodol (caiff yr offeryn ei nodi yn Atodiad 2).

## Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae digartrefedd a chysgu allan yn cael ei drafod mewn nifer o gyfarfodydd gan gynnwys ein Panel Gweithredu Cynllunio Argyfwng a cyfarfodydd mewnol a thrawsadrannol eraill wrth gydweithio i sicrhau nad oes neb yn cysgu allan yng Ngwynedd.

Mae argymhellion yr adroddiad wedi bod yn sail i'r ailstrwythuro o fewn ein hunedau Digartrefedd sydd yn cael eu gweithredu ar hyn o bryd, wedi cymeradwyaeth y Cabinet ym mis Ebrill, ac wedi cael sylw manwl y Cabinet yn ei gyfarfod ar 20 Ebrill 2021, â'r Pwyllgor Craffu ym mis Mawrth 2021.

## Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rydym yn cydweithio gyda nifer o asiantaethau trydydd sector i roi cefnogaeth i unigolion. Rydym yn dadansoddi data er mwyn adnabod tueddiadau a byddwn yn adeiladu ar y gwaith hyn yn dilyn penodi swyddog data newydd i gefnogi'r adran.

Mae'r argymhellion wedi bod yn berthnasol i'r ailstrwythuro yn ein hunedau digartrefedd, ac rydym yn cydweithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd gan gynnwys cyd-gyflogi aelod o staff arbenigol i roi cefnogaeth iechyd meddwl i unigolion.

## Casgliad

Wedi ei gwblhau.

## **5. Adfywio Ganol Trefi yng Nghymru**

Adroddiad cenedlaethol gyhoeddwyd ym mis Medi 2021

[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

## Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad –

A1 - Nid yw ardrethi annomestig wedi'u hadolygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac nid yw'r lefelau a godir yn adlewyrchu'r rhenti presennol sy'n cael eu cyflawni mewn llawer o ganol trefi. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu Ardrethi Annomestig er mwyn sicrhau bod y system yn adlewyrchu amodau canol trefi yn well pan ddaw gwyliau'r taliadau i ben ym mis Mawrth 2022.

A2 - Effeithir yn andwyol ar lawer o fusnesau canol tref drwy godi tâl am barcio ceir, mynediad at gludiant cyhoeddus a seilwaith trafniadaeth gwael. Argymhellwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag awdurdodau lleol i adolygu heriau trafniadaeth sy'n wynebu canol trefi ac yn cytuno ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r rhain.

A3 - Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu a denu ychydig o dan £900 miliwn yn uniongyrchol drwy 13 o gynlluniau ariannu i helpu i adfywio canol trefi. Fodd bynnag, ystyrir bod rhai agweddau ar reolaeth Llywodraeth Cymru ar y cyllid yn broblemus. Er mwyn sicrhau y gall awdurdodau lleol gael y mwyaf o effaith cyllid a mynd i'r afael

â'r problemau mwy anodd a hirsefydlog a fyddai'n helpu i drawsnewid canol eu trefi, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru:

- yn cydgrynhai cyllid i leihau biwrocratiaeth drwy symleiddio prosesau ac amodau grant a chwtogi cymaint â phosibl ar geisiadau am wybodaeth a deunyddiau ategol;
- yn cefnu ar gylchoedd cynnig blynyddol o blaid ddyraniadau aml-flwyddyn; ac
- yn ail-gydbwyso buddsoddiad o gyfalaf i refeniw i helpu awdurdodau lleol i fynd i'r afael â phrinderau sgiliau a capasiti staff.

A4 - Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hyfforddiant i bob un o'r 22 awdurdod lleol ar y ffordd orau o ddefnyddio pwerau gorfodi, cymorth ariannol ac adennill dyledion sy'n bodoli eisoes, ond nid ydynt yn cael eu defnyddio'n gyson nac yn effeithiol i gefnogi adfywio. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn cymryd camau priodol, gan ddefnyddio'r pwerau a'r adnoddau presennol hyn sydd ar gael i sicrhau'r canlyniad gorau posibl i ganol trefi drwy:

- ddefnyddio dulliau gorfodi amgen cyn defnyddio Gorchmynion Prynu Gorfodol pan fydd popeth arall yn methu;
- integreiddio strategaethau gorfodi gyda strategaethau adrannol ehangach ar draws timau tai, iechyd yr amgylchedd, cynllunio ac adfywio i wneud defnydd mwy effeithiol o sgiliau ac adnoddau sy'n bodoli eisoes; a
- sicrhau bod capasiti a'r arbenigedd cywir i ddefnyddio'r ystod lawn o bwerau, gan gydweithio â chynghorau eraill i sicrhau canlyniadau da.

A5 - Nod dull 'Canol Trefi yn Gyntaf' Llywodraeth Cymru yw rhoi iechyd canol trefi wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector cyhoeddus ehangach, busnesau a chymunedau. Mae hyn yn mynnu lefel uchel o integreiddio rhwng fframweithiau polisi trawsbynciol a phenderfyniadau i hyrwyddo canol trefi uwchlaw llawer o bethau eraill. Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn nodi sut y mae'n bwriadu cyflawni hyn yn ymarferol, ei disgwyliadau gan bartneriaid a'r camau ymarferol y bydd yn eu cymryd i wireddu'r uchelgais hwn.

A6 - Mae canol trefi'n newid, ac mae angen i awdurdodau lleol fod yn barod i dderbyn y newidiadau hyn a chynllunio i reoli'r newidiadau hyn. Rydym yn argymhell bod awdurdodau lleol yn defnyddio ein hofferyn adfywio i hunanasesu eu dulliau presennol o nodi lle mae angen iddynt wella eu gwaith ar adfywio canol trefi (mae'r offeryn yma).

#### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion –

Nid yw'r adroddiad/argymhellion wedi eu trafod mewn unrhyw bwyllgor ffurfiol o'r Cyngor. Nodir fod rhai o'r argymhellion yn berthnasol i faterion a gweithrediad pellach gan Llywodraeth Cymru. Mae'r Cyngor yn cyfrannu ar waith Grŵp

Swyddogion Adfywio Rhanbarthol sydd wedi trafod yr argymhellion. Mae'r ffaith fod canol trefi ac ardaloedd stryd fawr yn wynebu cyfnod o newid ac ansicrwydd wedi ei adnabod gan yr Adran Economi a Chymuned o fewn y gofrestr risg.

#### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rhagwelir y byddai argymhellion A1, A2 ac A3 yn cael eu hystyried gan Lywodraeth Cymru yn y lle cyntaf.

A4 – Mae sesiynau hyfforddiant (un ar gyfer Cabinet ac un ar gyfer swyddogion) a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru eisoes wedi eu cynnal. Mae'r Cyngor wedi sefydlu Grŵp Eiddo Gwag Traws-Adrannol ac wedi paratoi cynllun gweithredu sydd wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

A5 – Disgwylir gwybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru

A6 – Mae'r adroddiad yn argymhell offeryn adfywio er hunan asesu dulliau presennol, sydd yn gwneud defnydd o ddata o wefan Deall Lleuedd Cymru. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen am ddata ychwanegol ar gyfer adnabod a deall tueddiadau o fewn ardaloedd canol trefi ac wedi comisiynu gwaith pellach. Mae'r Cyngor hefyd yn cyfrannu at waith ar y cyd rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru i ddatblygu fframwaith adfywio canol tref ranbarthol sydd hefyd yn darparu data manwl ar gyfer canol trefi unigol.

#### Casgliad

Wedi ei gwblhau.

### **6. Adolygiad o waith awdurdodau lleol i gefnogi'u cymunedau dysgu mewn ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion (UCDau)**

Adroddiad i Wynedd gan Estyn dyddiedig 18 Ionawr 2021 - Mae'r llythyr hwn yn ddilyniant i adroddiad thematig cenedlaethol gyhoeddwyd 15 Ionawr 2021 - [Cymorth awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol i ysgolion ac UCDau i ymateb i COVID-19](#)

Derbyniwyd llythyr gan Brif Arolygydd Estyn sy'n disgrifio'r gwaith a wnaed gan Gyngor Gwynedd rhwng Mawrth a Hydref 2020 i ymateb i heriau dysgu dros gyfnod pandemig Covid-19. Ceir ddisgrifiadau o'r gwaith a wnaed ac ambell sylw ar lwyddiant y gwaith; ni cheir argymhellion cadarn ar gyfer gweithredu i'r dyfodol. I grynhoi; nid yw'r llythyr yn amlygu materion o bryder sydd angen gweithredu arnynt.

#### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Mae'r llythyr wedi ei rannu gyda'r Prif Weithredwr, Aelod Cabinet Addysg, Pennaeth Adran Addysg ac aelodau o Bwyllgor Craffu Addysg ac Economi.

Cyflwynwyd adroddiad blynyddol yr Adran Addysg i'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi ar 4 Chwefror 2021, ac roedd rhannau o gynnwys y llythyr yn cael eu dyfynnu yn yr adroddiad hwnnw.

### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Mae'r sylwadau sy'n cael eu gwneud yn y llythyr yn ogystal â'r argymhellion cenedlaethol wedi derbyn ystyriaeth gan yr Adran a'r Aelod Cabinet, ac rydym wedi defnyddio'r argymhellion wrth gynllunio sut i gefnogi ysgolion a dysgwyr drwy'r pandemig.

Bu Estyn gynnig sylwadau cadarnhaol ar ein cynnydd yn erbyn yr argymhellion cenedlaethol yn ôl ym mis Gorffennaf 2021 (gwelwch y ddolen isod).



Gwynedd.pdf

### Casgliad

Wedi ei gwblhau.

## **7. Taliadau Uniongyrchol ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion**

Adroddiad cenedlaethol gan Archwilio Cymru gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2022  
[Dolen i'r adroddiad ar wefan Archwilio Cymru](#)

### Cynigion Gwella yn codi o'r adroddiad

Yn rhan 1, mae'r adroddiad yn argymhell bod awdurdodau lleol:

-Yn adolygu gwybodaeth gyhoeddus gan drafod gyda defnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr i sicrhau ei bod yn eglur, yn gryno ac yn egluro'n llawn yr hyn y mae angen iddynt ei wybod am Daliadau Uniongyrchol.

-Yn gwneud gwaith hyrwyddo ychwanegol i annog pobl i ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol.

-Yn sicrhau bod gwasanaethau eiriolaeth yn cael eu hystyried ar y pwynt cyswllt cyntaf i roi cyngor annibynnol ynghylch Taliadau Uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn sicrhau bod gwybodaeth am Daliadau Uniongyrchol ar gael yn y drws blaen i ofal cymdeithasol a'u bod yn cael eu cynnwys yn y drafodaeth gychwynnol am yr opsiynau o ran gofal sydd ar gael i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

-Yn darparu hyfforddiant ar gyfer gweithwyr cymdeithasol ar Daliadau Uniongyrchol i sicrhau eu bod yn deall eu potensial yn llawn ac yn teimlo'n hyderus yn eu hyrwyddo i ddefnyddwyr gwasanaethau a gofalwyr.

Yn rhan 2:

-Yn cydweithio i ddatblygu Cynllun Recriwtio a Chadw ar y cyd ar gyfer Cynorthwyr Personol.

-Yn egluro disgwyliadau polisi mewn iaith glir, hygyrch ac yn nodi: yr hyn y gall Taliadau Uniongyrchol dalu amdano; sut y mae prosesau ymgeisio ac asesu, graddfeydd amser a phrosesau adolygu'n gweithio; sut y bydd monitro taliadau uniongyrchol a'r gwaith papur sy'n ofynnol i wirio taliadau'n gweithio; sut y bydd arian nas defnyddiwyd yn cael ei drin a pha un a ellir ei fancio; a sut i weinyddu a rheoli cyllidebau cyfun.

Yn rhan 3:

-Yn cydweithio i sefydlu system i werthuso Taliadau Uniongyrchol yn llawn a honno'n system sy'n cofnodi pob elfen o'r broses – gwybodaeth, hyrwyddo, asesu, rheoli a gwerthuso effaith ar lesiant ac annibyniaeth.

-Cyhoeddi gwybodaeth am berfformiad yn flynyddol ar gyfer pob elfen o Daliadau Uniongyrchol i'w gwneud yn bosibl cael golwg system gyfan ar y modd y cânt eu darparu ac o'u heffaith i gefnogi gwelliant.

### Trywydd y drafodaeth ar yr argymhellion

Adroddiad mewn ymateb i fater cenedlaethol yw hwn, felly does dim argymhellion penodol i Wynedd. Serch hynny, mae'r argymhellion wedi eu trafod yn fewnol gennym fel Adran. Rydym fel Adran yn llawn ymwybodol fod defnydd taliadau uniongyrchol Gwynedd yr isaf yng Nghymru, a fod hyn angen sylw.

Fel rhan o'r broses o drio trawsnewid y Gwasanaeth, rydym wedi mynd allan i dendr ar y gefnogaeth Taliadau Uniongyrchol yn ystod 2021/22. Diverse Cymru wedi bod yn llwyddiannus a wedi cychwyn ein cefnogi. Materion rhwystredig wedi bod yn ystod dyddiau cynnar y gytundeb ond y gobaiith yw symud rhai o'r materion ymlaen wrth gydweithio gyda Diverse Cymru dros y cyfnod nesaf.

Nid yw'r argymhellion ar gofrestr risg yr Adran ar hyn o bryd, ond bosib bydd angen ychwanegu yn fuan.

### Cynnydd yn erbyn y cynigion gwella

Rhan 1:

-Adolygu'r wybodaeth gyhoeddus a'r deunydd sydd ar gael yn esbonio taliadau uniongyrchol. Sicr angen sylw, a bydd hyn yn cael ei weithredu gyda chefnogaeth y Swyddog Prosiect Busnes a'r Swyddog Gwybodaeth. *Erbyn diwedd 2022-23.*

-Hyfforddiant Gweithwyr Cymdeithasol yn rywbeth sydd angen ei ddilyn i fyny, a'r gobaith ydi bydd hyn yn sicrhau hyrwyddo Taliadau Uniongyrchol ym mhellach, a hefyd cynnwys yn y sgwrs gychwynol gyda unigolion sy'n derbyn gwasanaethau. *Erbyn diwedd 2022/23.*

Rhan 2:

-Bydd cario 'mlaen y berthynas cydweithio gyda Diverse Cymru a sicrhau fod deunyddiau cyhoeddus clir ar gael yn sicrhau fod y broses taliadau uniongyrchol yn cael ei esbonio yn glir a mewn iaith dealladwy i unigolion a'u teuluoedd. *Erbyn diwedd 2022-23.*

-I helpu efo recriwtio a chynnal cynorthwywyr personol, mae disgwyliad i Diverse Cymru fod yn datblygu cofrestr, ac mae darparwyr eraill ar draws y Sir wedi holi er mwyn cael mynediad/bwydo mewn i'r gofrestr.

Rhan 3:

-Dim system werthuso/golwg system gyfan ar hyn o bryd. Hyn yn rywbeth sydd angen ei ddatblygu ac angen edrych arno cyn gynted a phosib. Bydd y swyddog prosiect busnes yn ail edrych ar y Gwasanaeth gyda'r Uwch Reolwr Busnes a mae'n debyg bydd adroddiad cabinet maes o law, ond mae blaenoriaethau arall ar hyn o bryd, felly er bydd mesurau yn cael eu datblygu yn fuan, amserlen llawn o werthusiad system gyfan *erbyn diwedd 2023/24.*

Casgliad

Wrthi'n cael ei gynllunio.